

Gorchymyn Drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad.

OFFERYNNAU STATUDOL DRAFFT

2010 Rhif

Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

DATGANOLI, CYMRU

**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd
Deddfwriaethol) (Yr Amgylchedd) 2010**

Gwnaed - - - - 2010

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)

Yn Llys Palas Buckingham, y dydd o 2010

Yn bresennol,

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(a) gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chan ddau Dŷ'r Senedd.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Amgylchedd) 2010.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Deddf 2006" yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Diwygiadau sy'n ymwneud â maes yr amgylchedd

2. Ym maes 6 (yr amgylchedd) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 mewnosoder—

"Mater 6.1

Atal gwastraff, ei leihau, ei gasglu, ei reoli, ei drin neu ei waredu.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys—

- (a) rheoleiddio unrhyw weithgaredd yn y môr;
- (b) rheoleiddio darparu gwasanaethau post gan berson sy'n dal trwydded, neu y mae'n ofynnol iddo ddal trwydded, gan y Comisiwn Gwasanaethau Post yn awdurdodi'r person hwnnw i gludo llythyrau o un man i fan arall (p'un ai a yw'r drwydded yn ymwneud â'r gwasanaethau ai peidio).

Gweler isod am ddarpariaeth bellach ynghylch yr hyn nad yw'r mater hwn yn ei gynnwys.

Mater 6.2

Gwaredu gwastraff yn y môr pan fo'r gwastraff wedi ei gasglu, ei reoli neu ei drin ar y tir.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys rheoleiddio'r gweithgareddau a ganlyn—

- (a) gollwng unrhyw sylwedd neu beth yn y môr neu ar wely'r môr neu oddi tano o unrhyw gerbyd, llestr, awyren, strwythur morwrol neu gynhwysydd sy'n arnofio;
- (b) gollwng unrhyw sylwedd neu eitem ffrwydrol yn y môr neu ar wely'r môr neu oddi tano;
- (c) hylosgi unrhyw sylwedd neu beth ar unrhyw gerbyd, llestr, awyren, strwythur morwrol neu gynhwysydd sy'n arnofio.

Gweler isod am ddarpariaeth bellach ynghylch yr hyn nad yw'r mater hwn yn ei gynnwys.

Mater 6.3

Diogelu neu wella'r amgylchedd o ran llygredd

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys—

- (a) rheoleiddio cyfansoddiad a chynnwys tanwydd a ddefnyddir yn unrhyw un o'r canlynol—
 - (i) cyfrwng trafndiaeth,
 - (ii) peiriant symudol nad yw ar gyfer y ffordd, neu
 - (iii) tractor amaethyddol neu goedwigol;
- (b) rhwymedigaethau ar bersonau sy'n cyflenwi tanwydd trafndiaeth mewn mannau, neu i'w ddanfôn i fannau, yn y Deyrnas Unedig i gyflwyno tystiolaeth sy'n dangos iddynt gyflenwi tanwydd trafndiaeth adnewyddadwy;
- (c) gwneud darpariaeth ynghylch y gyfradd o ynni adnewyddadwy a ddefnyddir mewn trafndiaeth, gan gynnwys gosod gofynion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd sy'n pennu a yw unrhyw ynni adnewyddadwy penodol i gael ei gyfrif tuag at unrhyw rywmedigaeth neu darged ynni adnewyddadwy;
- (d) darparu cymorth ariannol mewn cysylltiad â'r canlynol—
 - (i) cynhyrchu ynni adnewyddadwy i'w ddefnyddio mewn trafndiaeth, neu
 - (ii) defnyddio'r ynni hwnnw mewn trafndiaeth,gan gynnwys gosod gofynion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd sy'n pennu a yw unrhyw ynni adnewyddadwy penodol yn gymwys ar gyfer cymorth ariannol;
- (e) rheoleiddio chwilio am olew a nwy yn y rhannau hynny o'r môr tiriogaethol nad ydynt yn ddyfroedd tiriogaethol perthnasol a'u tynnu oddi yno.

Gweler isod am ddarpariaeth bellach ynghylch yr hyn nad yw'r mater hwn yn ei gynnwys.

Mater 6.4

Diogelu neu wella'r amgylchedd o ran niwsansau.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys—

- (a) gosod atebolrwydd troseddol na sifil o ran niwsansau ynni sydd wedi eu llunio o weithredoedd, anweithiau ac amgylchiadau y mae ar eu cyfer awdurdod statudol, ac eithrio atebolrwydd troseddol neu sifil y mae gan Weinidogion Cymru bŵer i'w osod;
- (b) cael gwared ar amddiffyniadau perthnasol rhag rheolau cyfraith sy'n gosod atebolrwydd troseddol neu sifil o ran niwsansau ynni, neu eithriadau perthnasol o'r rheolau hynny, ac eithrio'r amddiffyniadau a'r eithriadau hynny y mae gan Weinidogion Cymru bŵer i gael gwared arnynt;
- (c) rheoleiddio allyrru mwg, golau artiffisial neu sŵn o fangreoedd milwrol;
- (d) rheoleiddio gweithgareddau nwy, gweithgareddau olew, a'r seilwaith sy'n angenrheidiol i gyflawni unrhyw weithgareddau o'r fath;
- (e) rheoleiddio chwilio am olew a nwy yn y môr a'u tynnu oddi yno;
- (f) rheoleiddio cyfathrebiadau electronig a rhwydweithiau cyfathrebu electronig.

Gweler isod am ddarpariaeth bellach ynghylch yr hyn nad yw'r mater hwn yn ei gynnwys.

Heb eu cynnwys ym materion 6.1, 6.2, 6.3 a 6.4

Nid yw materion 6.1, 6.2, 6.3 a 6.4 yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol—

- (a) rheoleiddio ynglŷn â rheoli peryglon damweiniau mawr y mae a wnelo hwy â sylweddau peryglus (mae'r eithriad hwn i'w ddehongli'n unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 96/82/EC(a) a'r unig weithgareddau y mae'n ymwneud â hwy yw rhai sydd o fewn cwmpas y Gyfarwyddeb honno);
- (b) rheoleiddio datgomisiynu gosodiadau ynni alltraeth a'r seilwaith cysylltiedig.

Heb eu cynnwys ym materion 6.1 a 6.2

Nid yw materion 6.1 a 6.2 yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol—

- (a) rheoleiddio ffrwydrion a ddatgomisiynwyd ac sydd y tu allan i gwmpas y Gyfarwyddeb Wastraff yn rhinwedd Erthygl 2(1)(b)(v) o'r Gyfarwyddeb Wastraff ac sydd yn cael neu wedi bod yn cael—
 - (i) eu dal ar ran y Goron at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu neu at ddibenion adran yr Ysgrifennydd Gwladol sydd â chyfrifoldeb dros amddiffyn, neu
 - (ii) eu dal gan luoedd arfog sy'n ymweld neu at eu dibenion hwy;
- (b) rheoleiddio deunydd ymbelydrol sydd mewn mangreoedd milwrol;
- (c) rheoleiddio dal, cludo neu waredu carbon deuocsid fel rhan o ddal a storio carbon perthnasol.

(a) O.J. Rhif L10, 14.1.1997, tt. 13-33. Estynnwyd cwmpas y Gyfarwyddeb gan Gyfarwyddeb 2003/105/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (O.J. Rhif L345, 31.12.2003, tt. 97-105). Bu diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

Heb eu cynnwys ym materion 6.3 a 6.4

Nid yw materion 6.3 a 6.4 yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol—

- (a) rheoleiddio'r defnydd amgaaedig o organebau a addaswyd yn enetig.
- (b) rheoleiddio'r gweithgareddau a ganlyn yn y môr—
 - (i) gollwng unrhyw sylwedd neu beth yn y môr neu ar wely'r môr neu oddi tano o unrhyw gerbyd, llestr, awyren, strwythur morwrol neu gynhwysydd sy'n arnofio, neu o unrhyw strwythur ar dir a adeiladwyd neu a addaswyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben o ollwng unrhyw solidau yn y môr.
 - (ii) suddo unrhyw lestr neu gynhwysydd sy'n arnofio;
 - (iii) adeiladu, altro neu wella gweithiau yn y môr neu uwch ei ben neu ar wely'r môr neu oddi tano;
 - (iv) defnyddio unrhyw gerbyd, llestr, awyren, strwythur morwrol neu gynhwysydd sy'n arnofio i symud ymaith unrhyw sylwedd neu beth oddi ar wely'r môr;
 - (v) carthu;
 - (vi) gollwng neu ddefnyddio unrhyw sylwedd neu eitem ffrwydrol yn y môr neu ar wely'r môr neu oddi tano;
 - (vii) hylosgi unrhyw sylwedd neu beth ar unrhyw gerbyd, llestr, strwythur morol neu gynhwysydd sy'n arnofio;
- (c) trwyddedu morol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(a).

Ystyr “llygredd”

Yn y maes hwn ystyr “llygredd” yw llygredd aer, llygredd dŵr neu lygredd tir a ddichon arwain at unrhyw niwed amgylcheddol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) llygredd a berir gan olau, sŵn, gwres neu ddirgryniadau neu unrhyw fath arall o ryddhau ar ynni.

At ddibenion y diffiniad hwn, mae “aer” yn cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i hynny) aer o fewn adeiladau ac aer o fewn strwythurau naturiol eraill neu strwythurau o waith dyn sydd ar wyneb y ddaear neu oddi tani.

Ystyr “niwsans”

Yn y maes hwn, ystyr “niwsans” yw gweithred neu anwaith sy'n effeithio ar unrhyw fan, neu amgylchiadau mewn unrhyw fan, a ddichon amharu ar amwynder yr amgylchedd neu unrhyw ddefnydd cyfreithlon o'r amgylchedd, neu ymyrryd â'r amwynder neu'r defnydd hwnnw, ar wahân i weithred, anwaith neu amgylchiadau sy'n llygredd.

Ystyr “amddiffyniad perthnasol” ac “eithriad perthnasol”

Ym mater 6.4, mewn perthynas â rheol cyfraith sy'n gosod atebolrwydd sifil neu droseddol o ran niwsans ynni (“y niwsans anghyfreithlon”)—

ystyr “amddiffyniad perthnasol” yw cael gwared drwy statud (sut bynnag y mynegir hynny, a ph'un a yw'n amodol ai peidio) ar yr atebolrwydd sifil neu droseddol o ran gweithred, anwaith neu amgylchiadau sydd o fewn cwmpas y niwsans anghyfreithlon;

ystyr “eithriad perthnasol” yw eithrio drwy statud (sut bynnag y mynegir hynny, a ph'un a yw'n amodol ai peidio) weithred, anwaith neu amgylchiadau o gwmpas y niwsans anghyfreithlon.

Yn y diffiniadau hynny, mae cyfeiriad at gwmpas y niwsans anghyfreithlon yn gyfeiriad at y dosbarth o weithrediadau, anweithiau neu amgylchiadau sy'n niwsans anghyfreithlon.

Dehongli arall ar y maes hwn

Yn y maes hwn—

ystyr “gweithgaredd trydan” yw unrhyw un o'r canlynol—

- (a) cynhyrchu trydan mewn gorsaf gynhyrchu y mae'n ofynnol cael, i'w hadeiladu, i'w hymestyn neu i'w gweithio,—
 - (i) cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, neu
 - (ii) awdurdod gorchymyn yn rhoi caniatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008(a);
- (b) trosglwyddo, dosbarthu neu gyflenwi trydan;

ac at y diben hwn, mae'r cyfeiriad at gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyfeiriad at gydsyniad o dan bwerau i reoleiddio cynhyrchu trydan;

ystyr “cyfathrebiad electronig” yw cyfathrebiad a drosglwyddir—

- (a) drwy gyfrwng rhwydwaith cyfathrebu electronig, neu
- (b) drwy gyfrwng arall ond ei fod ar ffurf electronig;

ystyr “rhwydwaith cyfathrebu electronig” yw—

- (a) system drosglwyddo i gludo signalau o unrhyw ddisgrifiad, drwy ddefnyddio ynni trydanol, magnetig neu electromagnetig, a
- (b) y cyfryw rai o'r canlynol a ddefnyddir, gan y person sy'n darparu'r system ac mewn cysylltiad â hi, i gludo'r signalau—
 - (i) cyfarpar a geir yn y system,
 - (ii) cyfarpar a ddefnyddir i ddargyfeirio neu i lwybreiddio'r signalau, a
 - (iii) meddalwedd a data wedi ei storio;

ystyr “niwsans ynni” yw niwsans sy'n ymwneud â gweithgareddau trydan, gweithgareddau nwy, gweithgareddau olew, neu â seilwaith sy'n angenrheidiol i gyflawni unrhyw weithgareddau o'r fath;

ystyr “niwed amgylcheddol” yw unrhyw un o'r canlynol—

- (a) niwed i iechyd bodau dynol ac organebau byw eraill;
- (b) niwed i ansawdd yr amgylchedd, gan gynnwys—
 - (i) niwed i ansawdd yr amgylchedd o'i gymryd yn ei gyfanrwydd,
 - (ii) niwed i ansawdd yr aer, y dŵr neu'r tir, a
 - (iii) amhariad arall ar y systemau ecolegol y mae unrhyw organebau byw yn rhan ohonynt, neu ymyrraeth arall â'r systemau hynny;
- (c) tramgwydd i synhwyrâu bodau dynol;
- (d) difrod i eiddo;
- (e) amhariad ar amwynder yr amgylchedd, neu unrhyw ddefnydd cyfreithlon o'r amgylchedd, neu ymyrraeth â'r amwynder neu'r defnydd hwnnw;

ystyr “gweithgaredd nwy” yw storio, cludo neu gyflenwi nwy, ac eithrio unrhyw weithgaredd o'r fath sy'n cael ei gyflawni gan unigolyn at ddibenion domestig yr unigolyn;

(a) 2008 p. 29. Gweler Rhan 4 ar gyfer y gofyniad am ganiatâd datblygu.

ystyr “strwythur morol” yw plattform neu strwythur artiffisial arall yn y môr, ac eithrio piblinell;

ystyr “mangre filwrol” yw mangre sydd—

- (a) wedi ei meddiannu ar ran y Goron at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu neu at ddibenion adran yr Ysgrifennydd Gwladol sydd â chyfrifoldeb dros amddiffyn, neu
- (b) wedi ei meddiannu gan luoedd arfog sy'n ymweld, neu at eu dibenion hwy.

ystyr “gosodiad ynni alltraeth” yw unrhyw un o'r gosodiadau canlynol a gynhelir yn y môr, neu ar y blaendraeth neu ar dir arall a orchuddir o dro i dro â dŵr, ac nad yw wedi ei gysylltu â thir sych drwy strwythur parhaol sy'n darparu mynediad ar bob adeg ac at bob diben—

- (a) gosodiadau a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau olew, gweithgareddau nwy neu ar gyfer chwilio am nwy neu olew neu dynnu'r olew neu'r nwy allan);
- (b) gosodiadau storio carbon deuocsid;
- (c) gosodiadau ynni adnewyddadwy;

ystyr “gweithgaredd olew” yw storio, cludo neu gyflenwi olew, ac eithrio unrhyw weithgaredd o'r fath sy'n cael ei gyflawni gan unigolyn at ddibenion domestig yr unigolyn;

ystyr “dal a storio carbon perthnasol” yw dal carbon deuocsid a'i waredu o dan y ddaear drwy ddull sy'n golygu dal y carbon deuocsid yn y man lle mae'n cael ei gynhyrchu a'i gludo i'w waredu drwy biblinell yn uniongyrchol o'r man lle mae'n cael ei gynhyrchu i fan gwaredu tanddaearol;

ystyr “dyfroedd tiriogaethol perthnasol” yw'r dyfroedd sy'n ymestyn tua'r môr am dair milltir o'r gwaelodlinau y mesurir lled y môr tiriogaethol cyfagos i Gymru ohonynt; ond mae unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 104(4)(a) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(a) at ddibenion Rhan 3 o'r Ddeddf honno mewn perthynas â rhan o'r môr tiriogaethol cyfagos i Gymru hefyd yn gymwys at ddibenion penderfynu beth yw dyfroedd tiriogaethol perthnasol at ddibenion y maes hwn;

ystyr “môr” (ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall) yw'r môr cyfagos i Gymru allan cyn belled â thu'r môr i ffin y môr tiriogaethol;

ystyr “statudol” yw'r hyn sy'n codi yn rhinwedd Deddf;

ystyr “llu arfog sy'n ymweld” yw unrhyw gorfflu, criw neu adran o luoedd arfog unrhyw wlad sy'n llw sy'n ymweld at ddibenion un neu rai o ddarpariaethau Deddf Lluoedd Arfog sy'n Ymweld 1952;

ystyr “y Gyfarwydddeb Wastraff” yw Cyfarwydddeb 2006/12/EC(b) Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 5 Ebrill 2006 ar wastraff, fel y'i mabwysiadwyd yn wreiddiol.

Mae gorchymyn neu Orchymyn Cyfrin Gyngor a wnaed o dan neu yn rhinwedd adran 158(3) neu (4) at ddibenion yr adran honno hefyd yn gymwys at y diben o benderfynu ar unrhyw ffin rhwng y rhannau o'r môr sydd i'w hystyried yn gyfagos i Gymru at ddibenion y maes hwn a'r rhannau hynny nad ydynt i'w hystyried felly.”.

Diwygiadau i Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006

3.—(1) Diwygier paragraff A1(c) o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 yn unol â'r erthygl hon.

(2) O flaen y pennawd “*Priffyrdd a thrafnidiaeth (maes 10 o Ran 1)*” mewnosoder—

(a) 1991 p. 57.

(b) O.J. Rhif L 114, 27.4.2006, tt. 9-21.

(c) Mewnosodwyd y paragraff hwn gan erthygl 2(9) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Eithriadau i Faterion) 2009 (O.S. 2009/ 3006).

“Datblygu economaidd (maes 4 o Ran 1)

(1) Cynhyrchu trydan mewn gorsafoedd cynhyrchu y mae'n ofynnol cael, i'w hadeiladu, i'w hymestyn neu i'w gweithio—

- (a) cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, neu
- (b) awdurdod gorchymyn yn rhoi caniatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008,

ac at y diben hwn, mae'r cyfeiriad at gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyfeiriad at gydsyniad o dan bwerau i reoleiddio cynhyrchu trydan.

(2) Trosglwyddo, dosbarthu neu gyflenwi trydan.

(3) Arbed ynni, ar wahân i annog defnyddio ynni'n effeithlon ac eithrio drwy wahardd neu reoleiddio.

(4) Ynni niwclear a gosodiadau niwclear, gan gynnwys—

- (a) diogelwch niwclear, a
- (b) atebolrwydd dros ddigwyddiadau niwclear,

ond nid yw'r paragraff hwn yn cynnwys gwaredu gwastraff isel iawn ei ymbelydredd sydd wedi ei symud o safle y mae'n ofynnol cael trwydded safle niwclear o dan Ddeddf Gosodiadau Niwclear 1965(a) i'w ddefnyddio.”.

(3) O dan y pennawd “*Priffyrdd a thrafnidiaeth (maes 10 of Ran 1)*”—

(a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Gwasanaethau cludo nwyddau ar y ffyrdd, gan gynnwys trwyddedu gweithredwyr cerbydau nwyddau.”

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Rheoleiddio'r defnydd o gerbydau perthnasol ar ffyrdd, adeiladu a defnyddio cerbydau perthnasol, ac amodau y gellir defnyddio cerbydau perthnasol oddi tanynt, ar wahân i—

- (a) rheoleiddio'r defnydd o gerbydau perthnasol sy'n cludo anifeiliaid at ddibenion diogelu iechyd pobl, anifeiliaid, pysgod neu blanhigion neu'r amgylchedd, a
- (b) rheoleiddio sy'n ymwneud â mater 10.1.

At ddiben y paragraff hwn, ystyr “cerbydau perthnasol” yw cerbydau modur, peiriannau symudol a thractorau amaethyddol a thractorau coedwigol.”;

(c) ar ôl paragraff (14) mewnosoder—

“(14A) Hedfan, trafndiaeth awyr, meysydd awyr ac erodromau, ar wahân i—

- (a) cymorth ariannol i ddarparwyr, neu i ddarpar ddarparwyr gwasanaethau trafndiaeth awyr neu gyfleusterau neu wasanaethau meysydd awyr,
- (b) strategaethau gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau lleol neu awdurdodau eraill ynghylch darparu gwasanaethau awyr, a
- (c) rheoleiddio'r defnydd o awyrennau sy'n cludo anifeiliaid at ddibenion diogelu unrhyw un o'r canlynol—
 - (i) iechyd dynol, ar wahân i iechyd pobl mewn awyrennau,
 - (ii) iechyd anifeiliaid, pysgod neu blanhigion, neu
 - (iii) yr amgylchedd.”;

(d) yn lle paragraff (15) rhodder—

“(15) Llongau, ar wahân i—

(a) 1965 p. 57. Mae diwygiadau wedi eu gwneud i adran 1 o'r Ddeddf hon, sy'n cyfyngu gosodiadau niwclear penodol i safleoedd trwyddedig.

- (a) cymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau llongau i Gymru, o Gymru neu yng Nghymru, a
- (b) rheoleiddio'r defnydd o lestrau sy'n cludo anifeiliaid at ddibenion diogelu unrhyw un o'r canlynol—
 - (i) iechyd dynol, ar wahân i iechyd pobl mewn llestrau,
 - (ii) iechyd anifeiliaid, pysgod neu blanhigion, neu
 - (iii) yr amgylchedd.”;
- (e) yn lle paragraff (18) rhodder—

“(18) Harbyrau, dociau, glanfeydd a llithrffyrdd i gychod, ar wahân i —

 - (a) y rheini a ddefnyddir neu y mae'n ofynnol eu cael yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer y diwydiant pysgota, ar gyfer hamddena neu ar gyfer cysylltu rhwng mannau yng Nghymru (neu at ddau neu fwy o'r dibenion hynny), a
 - (b) rheoleiddio at ddibenion diogelu iechyd pobl, anifeiliaid, pysgod neu blanhigion neu'r amgylchedd.

(19) Cludo nwyddau peryglus, gan gynnwys cludo deunydd ymbelydrol.”.
- (4) Ar ôl yr eithriadau a restrir o dan y pennawd “*Lles Cymdeithasol (maes 15 o Ran 1)*” mewnosoder—

“*Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd (maes 19 o Ran 1)*

 - (1) Penodi a rheoleiddio unrhyw ymgwymerwr dŵr nad yw ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.
 - (2) Trwyddedu a rheoleiddio unrhyw gyflenwr dŵr trwyddedig o fewn ystyr Deddf y Diwydiant Dŵr 1991^(a), ar wahân i reoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedig sy'n defnyddio system gyflenwi ymgwymerwr dŵr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.”.

Enw

Clerc y Cyfrin Gyngor

(a) 1991 p.56. Cafodd diwygiadau i ddarparu ar gyfer trwyddedu cyflenwyr dŵr nad ydynt yn ymgwymerwr dŵr eu gwneud gan Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37), adran 56 ac Atodlen 4, paragraffau 1-3.

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”). Mae'r Gorchymyn yn estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau a elwir yn Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y cyfeirir atynt yn Neddf 2006 fel “Mesurau'r Cynulliad”). Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cyffredinol ar arfer y cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw, sy'n gymwys yn rhinwedd Adran 94 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 5 iddi.

Mae Erthygl 2 yn mewnosod materion 6.1, 6.2, 6.3 a 6.4 ym maes 6 (yr amgylchedd) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Mae hefyd yn mewnosod darpariaethau dehongli yn y maes hwnnw.

Mae mater 6.1 yn ymdrin ag atal gwastraff, ei leihau, ei gasglu, ei reoli, ei drin neu ei waredu.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys rheoleiddio—

- (a) gweithgareddau yn y môr, neu
- (b) darparu gwasanaethau post.

Mae mater 6.2 yn ymdrin â gwaredu gwastraff yn y môr pan fo'r gwastraff wedi ei gasglu, ei reoli neu ei drin ar y tir.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys rheoleiddio gweithgareddau morol penodedig.

Mae rheoleiddio'r canlynol wedi ei eithrio o faterion 6.1 a 6.2—

- (a) ffrwydron a ddatgomisiynwyd sy'n cael, neu wedi bod yn cael, eu dal at ddibenion milwrol,
- (b) deunydd ymbelydrol mewn mangroedd milwrol, ac
- (c) dal a storio carbon ar raddfa fawr.

Mae mater 6.3 yn ymdrin â diogelu neu wella'r amgylchedd o ran llygredd.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys—

- (a) rheoleiddio cyfansoddiad a chynnwys tanwydd trafndiaeth;
- (b) rhwymedigaethau penodedig ar bersonau sy'n cyflenwi tanwydd trafndiaeth;
- (c) materion penodedig sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy a thrafnidiaeth;
- (d) rheoleiddio chwilio am olew a nwy mewn rhannau penodol o'r môr.

Mae mater 6.4 yn ymdrin â diogelu neu wella'r amgylchedd o ran niwsansau.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys—

- (a) materion penodedig sy'n ymwneud ag atebolrwydd troseddol a sifil am niwsansau ynni (ar wahân i faterion penodedig sydd o fewn pwerau Gweinidogion Cymru);
- (b) rheoleiddio allyriadau mwg, golau artiffisial neu sŵn o fangroedd milwrol;
- (c) rheoleiddio gweithgareddau olew a gweithgareddau nwy a chwilio am olew a nwy yn y môr a'u tynnu oddi yno;
- (d) rheoleiddio cyfathrebiadau electronig a'u rhwydweithiau.

Mae rheoleiddio'r canlynol wedi ei eithrio o faterion 6.3 a 6.4—

- (a) rheoleiddio defnydd amgaeedig o organebau a addaswyd yn enetig;
- (b) gweithgareddau penodedig yn y môr; ac

(c) trwyddedu morol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Mae'r canlynol wedi eu heithrio o faterion 6.1, 6.2, 6.3 a 6.4—

(a) rheoleiddio ynglŷn â rheoli peryglon damweiniau mawr;

(b) rheoli datgomisiynu gosodiadau ynni alltraeth a seilwaith cysylltiedig.

Mae erthygl 3 yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 i ddarparu ar gyfer eithriadau sy'n gymwys i bob mater yn Rhan 1 o Atodlen 5. Mae'r erthygl hon yn amnewid nifer o'r eithriadau presennol yn Rhan 2 (a fewnosodwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Eithriadau i Faterion) 2009 (O.S. 2009/3006) sydd wedi eu grwpio yn maes priffyrdd a thrafnidiaeth. Mae'n mewnosod eithriadau newydd hefyd yn y grŵp hwnnw ac yn creu grwpiau newydd o eithriadau ym maes datblygu economaidd a maes dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd. Mae'r eithriadau a amnewidiwyd a'r eithriadau newydd yn cyffwrdd â materion a fewnosodwyd gan y Gorchymyn hwn.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi ei baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn, gan mai unig effaith y Gorchymyn hwn yw rhoi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu.